Bore Da

Bore da, bore da, sut wyt ti?
Wyt ti'n barod am fore llawn sbort a sbri?
Bore da, bore da, sut wyt ti?
Tyrd i ymuno yn yr hwyl a'r miri.

Agor dy lygaid, ac ymestyn (dy freichiau) i fyny
Neidia o dy wely clyd, achos mae'n amser i ti godi

Bore da, bore da, sut wyt ti?
Wyt ti'n barod am fore llawn sbort a sbri?
Bore da, bore da, sut wyt ti?
Tyrd i ymuno yn yr hwyl a'r miri.

'Molcha dy wyneb, ac yna chwilia am dy ddillad glan
Yna gwisgo sydd raid o'th ben i dy draed heb ffws na ffwdan

Bore da, bore da, sut wyt ti?
Wyt ti'n barod am fore llawn sbort a sbri?
Bore da, bore da, sut wyt ti?
Tyrd i ymuno yn yr hwyl a'r miri.

Brwsia dy ddannedd ac yna brwsia dy wallt ar hast
Rhed i lawr y grisiau nawr i fwyta dy frecwast

Bore da, bore da, sut wyt ti?
Wyt ti'n barod am fore llawn sbort a sbri?
Bore da, bore da, sut wyt ti?
Tyrd i ymuno yn yr hwyl a'r miri

© 2019 S4C